

Mae'n siŵr bod yr enw a'r lle, y safle a'r amgylchiadau yn fyw yng nghilfachau cof hyd yn oed y rheini ohonom nad oeddem wedi ein geni adeg yr Ail Ryfel Byd. Yma y carcharwyd am oes Rudolph Hess (1874-1987), dirprwy Adolf Hitler, ar ôl ei ddedfrydu gan Dribiwnlys



Dyfal gerddwyr y maes.

Milwrol Cydwladol Nuremberg yn 1945. Ar adeg arall, ond dan amgylchiadau ac amodau y byddai'n anodd eu disgrifio'n gwbl wahanol, y darparwyd safle steddffod yn Spandau yn 1915. Ni lwyddais, hyd yma, i gael hyd i gofnod am yr eisteddfod honno yn y cyfeirlyfrau eisteddfodol arferol. Ni wn i sicrwydd ychwaith pwy a fu'n llywio'r gweithgareddau, yn llywyddu'r dydd ac yn gosod y testunau ar gyfer y gwahanol gystadlaethau, yn beirniadu a dyfarnu teilyngdod ac yn cyflwyno'r gwobrau. Gwelais gyfeiriad anghyflawn at erthygl o'r enw *Gorsedd bards in the front line*, rai blynyddoedd yn ôl, ond methais â chael hyd iddi; ni chredaf, sut bynnag, fod yr un wisg wen ar gyfyl Steddffod Spandau. Gwn, sut bynnag, i'r steddffod honno gael ei chyhoeddi yn Hydref 1915 a bod iddi ei Rhestr Testunau Swyddgol. A bu cystadlu.

Yr oedd Ffrancwyr ac Eidalwyr, Jamaiciaid a Sansibariaid, Lascariaid a gwŷr o orllewin Affrica, Saeson o bob gradd ac o bob ban, Iddewon, Gwyddelod, Albanwyr a rhyw 70 o Gymry ymhlith y gynulleidfa garchar bosibl o 4,000 ar y maes 20 cyfer. Gwŷr sifil oeddent oll, a oedd wedi bod yn gweithio neu'n astudio neu ar wyliau yn yr Almaen ac wedi eu dal yno ar adeg llai na chyfleus ddechrau Awst 1914, ac yn sgil hynny eu carcharu ar faes rasio ceffylau Ruhleben, Spandau, Berlin. Yr oedd y rhan fwyaf o'r Cymry yn y gwersyll yn forwyr yn y llynges fasnach ac yn hanu, yn ôl pob tebyg, o orllewin Cymru. Methodd amryw o'r cymrodwr o Iwerddon â bod yn bresennol yn yr wyl oherwydd i gyfarfod yn y carchar a anerchwyd gan Syr Roger Casement drefnu i garfan o Wyddelod gael eu traed yn rhydd bron ar unwaith er mwyn iddynt allu cyfrannu'n weithredol at hyrwyddo achos

STEDDFOD SPANDAU

gan DAVID THORNE

gwahanol iawn ym myddin yr Almaen neu ar dir Iwerddon.

Trefnwyd cystadlu dan gochl Adrannau Cerdd, Drama,

rheol iaith wedi gwahardd y Saesneg.

Iddew o'r enw (?Israel) Cohen oedd un o hoelion wyth y

cystadlueth ar rwymo llyfrau; ni all neb dystio bellach i frwdfrydedd y cystadlu yn yr Adran hon, ond ymhlith memorabilia'r carchar a ddiogelwyd yn yr Amgueddfa Ryfel ceir cyfrol wedi ei rhwymo â chroen rhai o'r llygod ffrengig a oedd yn bla parhaus yn y

ARTS & SCIENCE UNION

THE CIRCLES.

Circle	Chairman	Secretary	Hour of Meeting
French	Mr. Balfour	Mr. Barry (Sch. B.)	3 Tuesday
German	Prof. Patchett	Mr. Carr (2)	1.45 Wed.
Spanish	Mr. Barry	Mr. Steer (7)	3 Friday
Italian	Mr. Cutayar	Mr. Struckmeyer (3)	2 Sun. 7 Tu. & Th.
*Science Technical	Dr. Lechmere	Mr. Chadwick (10)	6.30 Wed. 3-5 Th.
*Social Problems	Mr. A. C. Ford	Mr. Rawson (10)	7 Friday
Banking	Mr. Rudland	Mr. F. Stockall (11)	7 Wed.
Nautical	Capt. Hendriksen	Mr. Adams (10)	7 Mon.
Marine Engineers (Association)	Mr. P. M. Shaw	Mr. Fanning (11)	6.30 Friday

Those circles marked * are limited to persons who can contribute in their turn a paper of interest to the circle.

English Literature, Shakespeare, History, Scandinavian Literature Circles are being formed.

POPULAR LECTURES.

We are indebted to the following gentlemen for lectures much appreciated by those attending:

Wed. Sept. 22 Mr. Lockyer Roberts on the Generation and Distribution of Electric Power. Sat. 25th and Oct. 2nd Mr. Roylands-Cooper on the Condensation of Steam. Wed. 29th and 6th Mr. Swale on the Manufacture of Iron and Steel. Sat. 25th Mr. Kite on Une Colonic Française en Russie. Sat. Oct. 2nd Mr. Prichard on The Church of St. Marks, Venice.

EISTEDDFOD.

A full account will be found on another page.



Pwyllgor Llên a chaiff hwnnw ei gystwyo gan olygyddion y misolyn am ei frwdfrydedd aflywodraethus yn cyhoeddi'r Rhestr Testunau Llên (Rhyddiaith a Barddoniaeth) heb ymgynghori ag archdderwyddon y frawdoliaeth lenyddol a drefnai'r Arts and Science Union, corff rheoli'r ddarpariaeth addysgol yn y carchar.

Yr oedd yr Adran Gelf yn cynnwys cystadlaethau ym maes arlunio, cynllunio, cynllunio gwisgoedd a chelfi, gwnio, clymu a chyfanu rhaffau. Trefnwyd

gwersyll.

Er bod cofnod am gyhoeddi Rhestr Testunau Swyddgol, ni lwyddais hyd yma i ddarganfod copi. Darfu am *In Ruhleben Camp* adeg y Nadolig 1915, deufis wedi cyhoeddi'r steddffod.

Hyd y gwn i hefyd, un awdur yn unig a gofnododd ei argraffiadau o Steddffod Spandau, sef Richard Roe yn ei *In Ruhleben: Letters from a prisoner to his mother*, gol. Douglas Brook Wheelodon Sladen, cyfrol a ymddangosodd yn 1917. I'r awdur yr oedd y cyfan yn 'Philistine' ac yn 'cheap fun'.

Diflannodd pob ôl o faes steddffod Spandau erbyn hyn; ond gellir cyrraedd at yr hen safle'n ddigon hwylus o gyfliniau Prifysgol Humboldt, Berlin, ar linell U2 trên tanddaearol Berlin: dyma'r arosfan bellach ar gyfer y rheini sy'n heidio i siopa yn IKEA neu'n aros eu tro yn llynydd ac amyneddgar ar gyfer amlogfa dwyrain y ddinas.



Y gerddorfa.